



Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Gwyfynod cŵyr

Chwefror 2022

Ceir dau fath o wyfyn sy'n peri problemau i wenynwyr yn y DU, sef y gwyfyn cŵyr bach, *Achroia grisella*, a'r gwyfyn cŵyr mawr, *Galleria mellonella*. Mae'r ddwy rywogaeth o wyfynod cŵyr yn mynd drwy fetamorffosis llwyr sy'n cynnwys pedwar cam datblygu: wy; larfa; chwiler; a llawndwf. Yn gyffredinol, ystyrir mai mân bla yw gwyfynod cŵyr i wenyn mêl, ond gallant achosi problemau i gychod gwenyn gwannach.

Pa broblemau y mae gwyfynod cŵyr yn eu hachosi?

Nid yw gwyfynod cŵyr a'u larfâu yn lladd gwenyn mêl na'u nythfeydd. Fodd bynnag, fe'u gwelir yn aml yn dinistrio crwybrau wedi'u tynnu sy'n wag mewn nythfeydd sydd â breninesau gwan, sydd wedi'u difrodi gan blaleiddiaid, sy'n wan, sydd heb frenhines, sy'n newynog neu sydd â chlefydau. Gallant hefyd ddinistrio neu ddifrodi crwybrau wedi'u storio. Hefyd, gall y gwyfyn cŵyr mawr achosi difrod i rannau o gychod gwenyn drwy dyllu pantiadau siâp cwch yng ngwaith coed y cychod gwenyn a'r fframiau pan fyddant yn paratoi i chwiler. Yn gyffredinol, cydnabyddir bod y gwyfyn cŵyr mawr yn achosi llawer mwy o ddifrod na'r gwyfyn cŵyr bach.

A ydynt yn cynnig unrhyw fanteision i wenyn a gwenynwyr?

Mewn ardaloedd lle y ceir clefyd y gwenyn, y gwyfynod hyn yw 'cyfaill pennaf gwenynwyr' am eu bod yn cael gwared ar grwybrau heintus o'r cylch clefyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos nythfeydd gwyllt neu wag. Yn sicr, pan gyrhaeddodd y gwyfyn cŵyr mawr Seland Newydd, fel rhywogaeth egrotig, gwelwyd lleihad yn nifer yr achosion o glefyd Americanaidd y gwenyn ar yr un pryd.

Beth yw'r cylch oes?

Er mwyn rheoli plâu gwyfynod cŵyr, mae'n bwysig gallu eu hadnabod a deall eu cylchoedd oes er mwyn gallu cymryd camau priodol.

Gwyfyn Cŵyr Mawr (*Galleria mellonella*)

Mae'r gwyfyn llawndwf tua 20mm o hyd, mae ei led adenydd rhwng 24 a 33mm, ac mae'n frown gyda marciau llwydwyn. Pan gaiff ei weld mewn cwch gwenyn, bydd yn rhedeg neu'n hedfan pellter byr i'r tywyllwch. Weithiau, gellir ei weld yn clwydo ac yn hedfan yn agos at nythfeydd gwenyn wrth iddi nosi, gan fynd i mewn i gychod gwenyn neu flychau bryd hynny fel arfer.

Bydd y benywod yn dodwy clystyrau o wyau mewn holltau y tu mewn i'r cwch gwenyn, gan ddodwy rhwng 300 a 600 o wyau lliw hufen/pinc/gwyn sy'n anodd eu gweld. Byddant yn deor ar ôl 5–8 diwrnod ar ffurf y larfâu sy'n difrodi crwybrau gwenyn. Gall y larfâu hyn dreulio cŵyr gwenyn a byw ar yr amhureddau sydd ynddo. O ganlyniad i hynny, fe'u gwelir fel arfer yn y crwybr magu neu unrhyw grwybr sy'n cynnwys deunydd organig.

Bydd y larfâu yn tyrchu drwy grwybrau, a hynny'n aml ychydig o dan y capiau gan adael twnnel gwyn sidanaidd y tu ôl iddynt. Anaml y caiff y chwilerod gwenyn yn y celloedd eu niweidio, ond weithiau bydd yr edau sidan yn peri iddynt fynd sownd yn y celloedd, a byddant yn marw. Gelwir y cyflwr hwn yn *Galleriasis* ac mae'n fwy cyffredin mewn crwybrau newydd eu tynnu.

Bydd y larfâu yn tyfu i 24-33mm o hyd a, phan fyddant yn chwileru, byddant yn aml yn tyrchu i mewn i rannau o'r ffrâm bren wrth ymyl clustenni fframiau, neu'n agos at waliau'r cwch gwenyn gan adael cwysi siâp cwch tua 15mm o hyd. Yn achos plâu difrifol, gall y blwch cyfan lenwi â chwilerod mewn cocynau sidan gwyn. Gwelir smotiau tywyll o lwch lindys ar yr un pryd fel arfer. Pan fyddant yn ymddangos, bydd y ffurfiau llawndwf yn aeddfedu ac yn paru yn y cwch gwenyn fel arfer.

Gwyfyn Cŵyr Bach (*Achroia grisella*)

Mae'r gwyfyn llawndwf tua 10-13mm o hyd, mae ei led adenydd rhwng 11 a 14mm, ac mae'n llwyd neu'n llwydfelyn gyda phen melyn. Pan gaiff ei weld bydd yn hedfan, yn rhedeg yn gyflym iawn neu'n gafael yn y crwybr gan ddirgrynu ei adenydd.

Gall pob benyw ddodwy rhwng 250 a 300 o wyau a fydd yn deor ar ffurf larfâu sy'n edrych yn debyg i larfâu gwyfynod cŵyr mawr ond yn llai o faint. Er bod larfâu yn bwyta mêl, paill a chŵyr, ni chânt eu gweld mewn crwybrau sydd â gwenyn ynddynt ac nid ydynt yn difrodi rhannau o'r cwch gwenyn. Ni all larfâu gwyfynod cŵyr bach gystadlu â larfâu gwyfynod cŵyr mawr, a fydd yn eu bwyta.

Cadw nythfeydd cryf ac iach yw'r ffordd orau o atal plâu gwyfynod cŵyr ac, os na chânt eu rheoli, gall plâu luosogi'n gyflym, a hynny'n fwy dwys mewn amodau cynhesach.

Achosion o gamadnabod

Mae larfâu chwilen fach y cwch, *Aethina tumida*, yn debyg iawn i larfâu gwyfynod cŵyr a byddant yn bwyta cŵyr gwenyn, mêl, paill a mag, gan ddinistrio nythfeydd gwenyn yn llwyr. Y ddwy brif nodwedd a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng larfâu chwilen fach y cwch a larfâu gwyfynod cŵyr mawr yw'r tri phâr o goesau yn agos at y pen a'r drain sy'n gwthio allan o gefn larfâu chwilen fach y cwch.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn Nhaflen Gynghorol yr Uned Wenyn Genedlaethol (UWG), '*The Small Hive Beetle, a serious threat to European apiculture*', y gellir ei lawrlwytho o dudalen gyhoeddiadau BeeBase (<https://nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=167>). Ar hyn o bryd, nid oes cadarnhad ei bod yn bresennol yn y DU, ond ceir risg sylweddol y caiff ei chyflwyno. Os amheuir ei bod yn bresennol, rhaid rhoi gwybod i'r Uned Wenyn Genedlaethol.

National Bee Unit

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,

Sand Hutton, York YO41 1LZ

Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk

Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Chwefror 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk